





POLINATIONS

PECYN
ADNODDAU
ADDYSG

Commissioned by



& Presented by



TRIGGER

POLINATIONS

SUT I DDEFNYDDIO'R ADNODD HWN

**Mae'r pecyn hwn wedi'i
ysbrydoli gan themâu
PoliNations: bioamrywiaeth,
amrywiaeth a'r amgylchedd, sef
teitlau pob sesiwn addysgu.**

TAIR GWERS HYBLYG I YSGOLION CYNRADD.

Bydd yr adnodd addysgu hwn yn
cefnogi ac yn ysbrydoli athrawon i
ganfod ffyrdd creadigol o gysylltu â
themâu PoliNations.

Bydd y gweithgareddau'n annog
dysgwyr i ddysgu am deithiau pobl
a phlanhigion, Prydain fyd-eang a'r
amgylchedd o'u cwmpas nhw.

**Dysgwyr 7-11 oed
Cwricwlwm:
Pynciau STEM a Chelf**

NODIADAU I ATHRAWON



Mae pob sesiwn yn cynnwys gwybodaeth am
y thema dan sylw, cwestiynau i'r dosbarth eu
trafod a gweithgaredd creadigol.

Mae'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys
wedi'u hysgrifennu mewn iaith sy'n addas
i blant i helpu i gynllunio'r sesiwn. Mae'r
pecyn hwn wedi'i dargedu at ddysgwyr
7 – 11 oed, ond mae'n hawdd addasu'r
cynnwys ar gyfer amrediadau oed is ac
uwch. Mae cysylltau â'r cwricwlwm ar gyfer
cynllunio i'w cael ar ddiwedd yr adnodd hwn.

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn llawn
syniadau ac ysbrydoliaeth. Mae'n cynnwys
tair adran o weithgareddau y gellir eu
haddysgu ar draws dwy neu dair gwers.

Gallwch chi addasu'r tasgau a'r sesiynau sydd
wedi'u hawgrymu i weddu i'ch disgyblion.

Drwy gymryd rhan, bydden ni wrth ein
boddau i ddysgwyr droi'n 'Beillwyr': pobl
sy'n angerddol am yr amgylchedd ac sy'n
croesawu ac yn dathlu amrywiaeth yn yr
ysgol ac yn eu cymunedau.

Gellir arddangos y pecyn ar fwrdd gwyn
rhyngweithiol i'w ddefnyddio yn y dosbarth.
Rydyn ni'n gobeithio y bydd eich dosbarth yn
mwynhau bod yn Beillwyr!

POLINATIONS

NODIADAU I ATHRAWON

Mae PoliNations yn ardd dros dro fawreddog a thrawiadol o filoedd o blanhigion a choed ffug anferthol. Mae'n dathlu'r planhigion anhygoel rydyn ni'n eu gweld bob dydd ac sydd wedi dod o bob cwr o'r byd – rhosynnau, llygaid y dydd, afalau a hyd yn oed te!

Mae'r planhigion hyn wedi dod ar deithiau gwych ac yn dweud hanes Prydain fyd-eang wrthyn ni.

Mae PoliNations yn cael ei gynhyrchu a'i arwain gan y sefydliad celfyddydau Trigger, sydd wedi'i leoli ym Mryste, a chasgliad o bobl greadigol ac arbenigwyr ym meysydd garddwriaeth, y celfyddydau, gwyddoniaeth a phensaernïaeth.

Mae'n ddathliad o hanes amrywiol ac amlddiwylliannol y DU, mae am ddim i bawb ac mae gwahoddiad i bawb!

Comisiynwyd PoliNations fel rhan o UNBOXED: Creativity in the UK ac mae hefyd yn cael ei gyflwyno fel rhan o Wyl Birmingham 2022.

Gallwch chi ddysgu mwy am PoliNations yma: www.polinations.com

Diolch am gymryd yr amser i Diolch am gymryd yr amser i lawrlwytho'r pecyn hwn. Gobeithio y gwnewch chi ei fwynhau!

CYMRYD RHAN YN POLINATIONS

Mae'r adnodd hwn wedi'i lunio fel set hyblyg o fannau cychwyn y gallwch chi eu cynnwys yn eich addysgu.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr adnodd yn rhoi cyfle i chi rannu syniadau a gweithgareddau newydd â'ch disgyblion a'u cyflwyno nhw i straeon a theithiau cyffrous pobl a phlanhigion!

NODIADAU I ATHRAWON



Bydd PoliNations yn digwydd yn Birmingham o ddydd Gwener 2il – dydd Sul 18fed Medi.

Bydd yr ŵyl yn cynnal digwyddiadau, gweithdai a pherfformiadau am ddim gan gynnwys cerddoriaeth fyw, dawns, llefaru a drag ac rydyn ni'n gobeithio y gwnewch chi ymuno â ni i gael hwyl a dysgu mwy am themâu'r pecyn hwn!

Bydd y 'Fam Goeden' hefyd yng Nghaeredin o ddydd Iau 4ydd – dydd Gwener 12fed Awst yn Assembly George Street.

Byddwn ni'n cynnal teithiau a gweithdai am ddim i ysgolion yn PoliNations yn Birmingham ym mis Medi 2022.

Felly, os ydych chi'n ysgol a hoffai gael gwybod mwy am y cyfle cyffrous hwn, cofrestrwch eich diddordeb drwy anfon e-bost i ni yn: takepart@triggerstuff.co.uk

RHANNWCH EICH LLWYBR AT FOD YN BEILLWYR!

Bydden ni wrth ein boddau i weld beth rydych chi'n ei greu. Rhannwch eich ffotograffau a'r pethau rydych chi'n eu creu ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r dolenni:

Instagram @Poli_Nations Facebook @PoliNations

Twitter @Poli_Nations TikTok @Poli_Nations

#PoliNations

Gallwch chi hefyd eu hanfon nhw drwy e-bost aton ni yn: takepart@triggerstuff.co.uk

GOLWG GYFFREDINOL AR Y WERS

NODIADAU I ATHRAWON

Gwers	Amser sydd ei angen	Rhifau'r sleidiau	Crynodeb o'r wers	Awgrymiadau ar gyfer deunyddiau i'r gweithgaredd creadigol (fesul dosbarth)
Gwers 1: Bioamrywiaeth Daearyddiaeth / Celf Y Byd o'n Cwmpas Ni / PDMU Gwyddorau / Celf a Dylunio Dyniaethau	30 Munud +	Sleidiau 8-16	Mae Gwers 1 yn archwilio bioamrywiaeth, sef yr holl wahanol fathau o blanhigion, pryfed ac anifeiliaid sy'n byw mewn un ardal. Yn y wers hon, byddwch chi'n archwilio planhigion o bob cwr o'r byd ac yn gwneud eich cerflun planhigol eiconig eich hun.	Cardbord sgrap neu wedi'i ailgylchu (tiwbiau, bocsys cardbord ac ati), papur a cherdyn lliw, glanhawyr pibell, gleiniau, papur sidan neu bapur crêp, poteli plastig a chaeadau, paent a phinnau ffelt, tâp, glud PVA.
Gwers 2: Amrywiaeth ABCh / Celf Y Byd o'n Cwmpas Ni / PDMU Iechyd a Lles / Celf a Dylunio Dyniaethau	30 Munud +	Sleidiau 17-22	Mae Gwers 2 yn archwilio amrywiaeth, gan ganolbwyntio ar ddathlu sut rydyn ni'n debyg ac yn wahanol. Yn y wers hon, byddwch chi'n creu eich portread PoliNations eich hun.	Defnyddiau collage fel hen bapurau newydd a chylchgronau, lluniau o blanhigion a blodau i'w torri, papur lliw, PVA neu ffyn glud, ffotograffau o bob aelod o'r dosbarth wedi'u hargraffu'n fawr ar bapur A4, cerdyn/papur A3, pinnau/pensiliau lliw, camera digidol (opsiynol).
Gwers 3: Ein Hamgylchedd Y Byd o'n Cwmpas Ni / PDMU Gwyddorau Cymdeithasol Gwyddoniaeth a Thechnoleg / Dyniaethau	30 Munud +	Sleidiau 23-26	Mae Gwers 3 yn archwilio ein hamgylchedd a beth sydd ei angen ar natur i ffynnu. Yn y wers hon, byddwch chi'n gwneud bom hadau blodau gwyllt.	Hadau blodau gwyllt cymysg, 10L o gompost heb fawn neu bridd, dŵr, bag o bowdr clai (i'w gael mewn siopau creffttau), 30 powlen gymysgu, 1 pot ar gyfer mesur.



BETH YW POLINATIONS?

POLINATIONS

Mae PoliNations yn ardd fawreddog o filoedd o blanhigion a choed anferthol, yng nghanol dinas.

Mae'n dathlu'r planhigion anhygoel rydyn ni'n eu gweld bob dydd ac sydd wedi dod o bob cwr o'r byd – rhosynnau, llygaid y dydd, afalau a hyd yn oed te!

Mae'r planhigion hyn wedi dod ar deithiau gwych ac yn dweud hanes Prydain fyd-eang wrthyn ni.

BETH YW PEILLWR?

Mae anifeiliaid a phryfed fel adar, gwenyn, ystlumod, gloŷnnod byw, gwyfynod a chwilod yn beillwyr.

Mae peillwyr yn cludo paill rhwng blodau; mae eu hangen nhw ar blanhigion i atgennedlu fel rhan o'u cylchred bywyd. Mae peillwyr yn codi paill oddi ar un planhigyn ac yn mynd ag ef i blanhigyn arall. Yna, mae'r paill yn ffrwythloni'r ail blanhigyn ac mae'n creu hadau.

Mae planhigion yn denu peillwyr drwy ddefnyddio blodau lliwgar a phersawrau cryf. Mae'r blodau hefyd yn cynhyrchu neithdar melys sy'n fwyd i'r peillwyr ac yn eu hannog nhw i fwydo, gan godi'r paill wrth fwyta.

GWNEWCH ADDEWID Y PEILLIWR!

**Cymerwch ran yn PoliNations!
Gallwch chi fod yn Beilliwr
drwy wneud Addewid y
Peilliwr!**

**Ar ôl cwblhau'r gwersi hyn,
bydd pob aelod o'r dosbarth
yn cael tystysgrif Peilliwr
arbennig, sy'n hawdd ei
hargraffu er mwyn gallu mynd
â hi adref. Mae hon i'w chael
yng nghefn y pecyn.**

ADDEWID Y PEILLIWR

**Rydw i'n deall y teithiau anhygoel mae
llawer o bobl a phlanhigion wedi'u gwneud.**

**Rydw i'n dathlu gwahaniaethau
yn fy ysgol ac yn fy nghymuned.**

**Rydw i'n mynd i gymryd camau bach
i ddiogelu'r amgylchedd.**

**Rydw i'n mynd i annog pobl eraill i wneud yr
un peth.**

Fel gwenyn a gloynnod byw sy'n gwasgaru pail ac yn helpu ein blodau i dyfu, bydd Addewid y Peilliwr yn ysbrydoli dysgwyr i ddefnyddio eu dealltwriaeth newydd i ddathlu ein gwahaniaethau, gwarchod byd natur, a bod yn garedig â phobl o bob cefndir.



GWERS 1. BIOAMRYWIAETH

BIOAMRYWIAETH

Bioamrywiaeth yw'r holl wahanol fathau o blanhigion, pryfed ac anifeiliaid sy'n byw mewn un ardal. Mae angen llawer o wahanol blanhigion er mwyn i fywyd gwyllt, a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol, oroesi.

Dydy llawer o'r planhigion amrywiol sydd yn ein gerddi a'n parciau ddim yn dod o'r DU yn wreiddiol – maent wedi teithio yma o wahanol rannau o'r byd.

Oeddech chi'n gwybod bod tua 80% o'r planhigion sydd yng ngerddi dinasoedd y DU yn dod o dramor yn wreiddiol?

Dyma rai enghreifftiau o sut daethon nhw yma:

Gwyddoniaeth

Teithiodd botanegwyr o Brydain ledled y byd yn casglu planhigion i ymchwilio iddynt a'u casglu, fel y blodyn lotws yn Asia.

Gwladychu

Wrth i Brydain wladychu llawer o wledydd ledled y byd daeth cnydau yn ôl i'r DU, fel cotwm o America a chansenni siwgr o'r Caribî.

Masnach

Roedd yr Hen Ffordd Sidan yn dod ag afalau, rhosynnau a defnyddiau eraill wedi'u gwneud o blanhigion, fel papur, o Asia i Ewrop.


Mewnfudo

Roedd pobl yn aml yn dod â phlanhigion gyda nhw wrth symud i'r DU. Er enghraifft, daeth pobl o'r Caribî ag acïau a ffrwythau bara i'r DU pan gawson nhw eu gwahodd i symud yma ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

PLANHIGION EICONIG POLINATIONS

Fel rhan o PoliNations, rydyn ni'n dathlu planhigion eiconig drwy gomisiynu artistiaid a dylunwyr i wneud cerfluniau a gwisgoedd yn seiliedig ar eu hoff blanhigion.

Mae'r artistiaid yn creu eu gwaith celf gan ddefnyddio straeon tarddiad planhigion a blodau fel ysbrydoliaeth – eu lliwiau, sut rydyn ni'n eu defnyddio nhw, eu hadeiledd a'r hyn maen nhw'n ei symboleiddio.



Dyma waith celf dylunio un cerflun planhigyn eiconig, sydd wedi'i ysbrydoli gan y tiwlip. Bydd yn 4 metr o uchder ac yn edrych fel ei fod wedi'i wneud o aur.

Mae'r dyluniad yn ymwneud â'r stori bod y tiwlip, sy'n tarddu o Asia, wedi mynd yn rhywbeth ffasiynol i'w gasglu yn yr Iseldiroedd ac wedi mynd yn ddrud iawn i'w brynu - weithiau, byddai un bwlb tiwlip yn costio mwy na thŷ!

Fe wnaeth 'tiwlip mania' achosi chwalfa ariannol yn 1637 gan golli llawer o arian i bobl oedd wedi buddsoddi mewn tiwlipau.

Pam rydych chi'n meddwl bod yr artist wedi dewis gwneud y gwaith celf hwn yn aur?

Mae tiwlip fel rheol yn 30cm o uchder. Pam rydych chi'n meddwl bod yr artist wedi dylunio'r gwaith celf hwn i fod mor uchel?

PLANHIGYN EICONIG

Mae ein hecosystem amrywiol yn cynnwys planhigion o bob rhan o'r byd ac mae eu siâp, eu lliw a'u maint yn amrywio. Dyma rai planhigion gwahanol iawn rydyn ni'n eu gweld bob dydd ac sydd wedi dod o bob cwr o'r byd – mae ganddyn nhw straeon ffantastig!

TRILLIW

Mae'r trilliw yn symbol o feddwl rhydd; roedd menywod dewr yn gwisgo trilliw fel symbol i fudiad y swffragetiaid wrth frwydro am eu hawl i bleidleisio. Mae enw Saesneg y blodyn 'pansy' yn dod o'r gair Ffrangeg am feddwl – pensée.

HELYGEN

Mae coed helyg i'w gweld yn gyffredin yn y DU. Mae'n symbol o ffrwythlondeb a bywyd newydd, oherwydd mae'n bosibl plannu cangen helygen yn y tir a bydd coeden newydd yn tyfu ohoni. Rydyn ni'n defnyddio'r pren i wneud byrddau a chadeiriau, ac rydyn ni wedi defnyddio'r rhisgl mewn meddygaeth fel math o asbirin.

RHOSYN

Mae llawer o rosynnau'n olygfa gyfarwydd yng ngerddi a pharciau Prydain. Yn wir, mae'r rhosynnau byddwch chi'n eu gweld yng ngerddi Prydain yn groesryw o rosyn o China sydd wedi cael ei dyfu ers dros 5,000 o flynyddoedd!

Yn ystod oes y Rhufeiniaid, roedd rhosynnau'n cael eu tyfu yn y Dwyrain Canol a'u defnyddio fel conffeti mewn dathliadau, at ddibenion meddyginiaethol, ac fel ffynhonnell persawr. Hwn yw blodyn cenedlaethol Lloegr a chafodd ei ddefnyddio fel symbol yn Rhyfel y Rhosynnau yng nghyfnod y Tuduriaid.

PLANHIGYN EICONIG FFOCWS

FFEIL FFEITHIAU

HANES YR AFAL

Mae afalau'n olygfa gyffredin iawn mewn archfarchnadoedd a siopau groser yn y DU. Mae afalau'n tyfu ar goed ac yn tyfu'n dda iawn yn hinsawdd y DU.

LLINELL AMSER AFALAU!

Tyfodd yr afalau cyntaf mewn coedwigoedd afalau gwyllt, mynyddig yn Kazakhstan. Yn wir, mae enw dinas Almaty yn Kazakhstan yn golygu 'llawn afalau'!

Dechreuodd yr afal ledaenu o Kazakhstan wrth i anifeiliaid ac adar gludo'r hadau cyn belled â Syria.

Fe wnaeth y Rhufeiniaid ddod o hyd i afalau yn tyfu yn Syria a dod â nhw i'r DU ar y Ffordd Sidan (mwy o wybodaeth ar y sleid nesaf). Mae afalau'n tyfu yr holl ffordd ar hyd y daith hon, ar ôl i bobl ollwng hadau afalau wrth deithio. Roedd afalau'n fyrbryd hawdd i deithwyr a byddinoedd Rhufain ei gludo gyda nhw - y bwyd cyflym cyntaf!

Doedd afalau bryd hynny ddim yn edrych fel y rhai rydyn ni'n eu hadnabod heddiw – roedden nhw'n arfer edrych fel mwyar crebachlyd ac yn blasu'n llawer mwy chwerw.

Y Ffordd Sidan

Y DEYRNAS
UNEDIG

KAZAKHSTAN

MONGOLIA

CHINA

INDIA

Bea Bengal

Môr Arabia

YR AIFFT

FIDEO:
Y Ffordd Sidan



SYRIA

TWRCI

GWLAD
GROEG

YR EIDAL

Nid ffordd oedd y Ffordd Sidan, ond rhwydwaith hynafol o wahanol ffyrdd oedd wedi datblygu dros ganrifoedd, gan gysylltu Asia, y Dwyrain Canol, y Môr Canoldir ac Ewrop, yn fras rhwng y blynyddoedd 130 CC - 1453 OC.

Datblygodd y ffyrdd oherwydd masnachu gwahanol eitemau fel papur, gwydr, te ac, wrth gwrs, sidan!

PLANHIGYN EICONIG FFOCWS

YR AFAL HEDDIW

Datblygodd y Rhufeiniaid lawer o amrywiaethau newydd o afalau, gan eu gwneud nhw'n fwy ac yn felysach bob tro!

Yn yr 1800au, roedd y Fictoriaid yn arddwyr brwd ac aethon nhw ati i ddatblygu'r afal ymhellach a chreu amrywogaethau newydd. Fe wnaethon nhw hefyd ddechrau'r arfer o dyfu ffrwythau mewn gerddi domestig a gerddi cegin yn ogystal ag mewn perllannau mawr ar ffermydd.

Erbyn hyn mae dros 7,500 o amrywogaethau afal yn bodoli, ond dim ond llond llaw rydyn ni'n eu tyfu'n fasnachol yn y DU. Mae ffermwyr yn defnyddio toriadau o ganghennau coed i wneud coed newydd. Dychmygwch fod yr holl afalau Granny Smith rydych chi'n eu gweld yn yr archfarchnadoedd yn dod o UN GOEDEN yn wreiddiol ac mai'r unig beth rydyn ni wedi'i wneud yw cymryd toriadau a'u hailblannu nhw.

Oeddech chi'n gwybod bod disgyblion yn ysgolion America yn arfer rhoi afal i'w hathrawon i ddweud diolch?

Mae gan y traddodiad hwn wreiddiau yn Sweden a Denmarc yn yr 1700au, pan fyddai teuluoedd tlawd yn arfer talu am addysg eu plant â basgedi o afalau.

Mae'r afal yn ymddangos yn aml mewn chwedlau, straeon tylwyth teg, a diwylliant Prydain.

Allwch chi feddwl am rywle rydych chi wedi gweld llun neu symbol afal mewn stori neu fel logo?

Y tro nesaf rydych chi'n bwyta afal, meddyliwch am stori anhygoel ei darddiad a pha mor bell mae wedi teithio i gyrraedd eich bocs bwyd!

GWEITHGAREDD

GWNEWCH EICH CERFLUN PLANHIGYN EICONIG EICH HUN!

Yn union fel yr artistiaid a'r dylunwyr rydyn ni'n gweithio gyda nhw ar gyfer PoliNations, hoffen ni i chi ddylunio a gwneud eich gwaith celf eich hun wedi'i ysbrydoli gan eich hoff blanhigyn neu flodyn!

Fel rydych chi wedi'i weld, mae gan lawer o blanhigion straeon anhygoel ynglŷn â sut daethon nhw i'r DU o dramor.

 **Beth am ymchwilio i wahanol fathau o blanhigion a blodau – gallech chi gael eich ysbrydoli gan y trilliw, rhosyn, rhedyn, tiwlip, afal neu feddwl am eich awgrymiadau eich hun!**

 **Defnyddiwch eich llyfrgell neu unrhyw offer ar-lein sydd wrth law gennych chi i wneud eich ymchwil. Ceisiwch ddod o hyd i flodyn neu blanhigyn â stori ddiddorol, neu dewiswch wlad rydych chi wedi ymweld â hi neu wlad lle mae gennych chi deulu, ac ymchwiliwch i'r planhigion sy'n dod oddi yno!**

GWEITHGAREDD

GWNEWCH EICH CERFLUN PLANHIGYN EICONIG EICH HUN!

**Defnyddiwch ddefnyddiau wedi'u hailgylchu – mae hyn yn
ffordd wych o fod yn greadigol a helpu'r blaned hefyd!**

Cyfarwyddiadau

- 1. Dewiswch eich planhigyn!**
- 2. Mewn parau neu grwpiau bach, disgrifiwch y planhigyn rydych chi wedi'i ddewis i'ch gilydd. Un lliwgar? Un uchel? Beth yw siâp y petalau neu'r dail? Beth arall rydych chi'n sylwi arno?**
- 3. Dewiswch pa ddefnyddiau wedi'u hailgylchu i'w defnyddio i wneud eich cerflun planhigyn.**
- 4. Adeiladwch adeiledd gan ddefnyddio tâp, glud a'r defnyddiau wedi'u hailgylchu rydych chi wedi'u dewis.**
- 5. Addurnwch yr adeiledd gan ddefnyddio defnyddiau ychwanegol fel papur sidan neu lanhawyr pibell.**
- 6. Ychwanegwch y cyffyrddiadau olaf gan ddefnyddio pinnau lliw neu baent.**



GWERS 2.

AMRYWIAETH

AMRYWIAETH

FFEIL FFEITHIAU

Yn union fel mae gardd yn cynnwys llawer o wahanol blanhigion, mae'r DU yn cynnwys llawer o wahanol bobl o wahanol ethnigrwydd, hil, diwylliant a chefnidir. Mae'n wlad amlddiwylliannol!

Meddylwch am ardd a faint o blanhigion sy'n gwneud gwely o flodau. Byddai gardd â dim ond un math o blanhigyn neu flodyn yn ddiflas iawn!

A dweud y gwir, mae angen llawer o wahanol blanhigion (bioamrywiaeth) er mwyn i fywyd gwyllt, bodau dynol a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol, oroesi.

Mae gan eich ysgol chi ddisgyblion a staff o wahanol ddiwylliannau a chymunedau. Mae'n bwysig dathlu ein gwahaniaethau a sut rydyn ni'n debyg hefyd. Mae yr un fath ym myd natur. Mae gwahaniaeth yn ein gwneud ni'n gryfach.

Tasg trafod – Beth yw eich gwreiddiau?

Gweithiwch fel dosbarth neu grwpiau bach

Oes rhywun yn siarad iaith arall?

Oes rhywun wedi byw mewn gwlad arall?

Oes gan rywun rieni neu nain a thaid sydd ddim wedi'u geni yn y Deyrnas Unedig?

Oedd unrhyw un yn gwybod y pethau hyn yn barod?

Oes rhywun wedi dysgu rhywbeth newydd?

Oeddech chi'n gwybod... bod Poli yn golygu llawer?

Mae ein teitl yn golygu 'llawer o wledydd'!

AMRYWIAETH

Yn union fel planhigion, mae poblogaeth y DU yn cynnwys pobl â gwreiddiau ym mhob rhan o'r byd.



Drwy hanes, mae pobl wedi teithio i'r DU am wahanol resymau:

Gwrthdaro:

Daeth yr Huguenotiaid o Ffrainc yn yr 1600au i'r DU i ddianc rhag trais crefyddol.

Caethwasiaeth:

Roedd pobl o Affrica yn yr 1700au a'r 1800au yn cael eu dal, eu caethiwo, a'u gorfodi i weithio mewn gwladfeydd neu fod yn weision ym Mhrydain.

Gwaith:

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, cafodd pobl o Wledydd y Gymanwlad eu hannog i fyw a gweithio yn y DU i helpu i ailadeiladu'r wlad ar ôl y rhyfel.

Er bod y DU wedi croesawu llawer o bobl o bob rhan o'r byd, mae'n bwysig cofio bod hanes yr Ymerodraeth Brydeinig yn aml yn boenus i lawer o bobl, yn enwedig oherwydd caethwasiaeth drawsiwerydd. Rydyn ni'n mynd i ddarllen am un o'r unigolion gafodd eu gorfodi i Brydain yn ystod caethwasiaeth (ar y dudalen nesaf).

John Ystumllyn

Cafodd John Ystumllyn, y garddwr Du cyntaf i gael ei ddogfennu yn y DU, ei gipio i fod yn gaethwas o Affrica pan oedd yn 8 oed.



Aethpwyd ag ef i Gymru yn 1746 – bron 280 mlynedd yn ôl!

Dydyn ni ddim yn gwybod ei enw gwreiddiol nac o ble yn union yn Affrica y daeth, ond rydyn ni'n gwybod ei fod wedi dioddef hiliaeth drwy gydol ei fywyd yn y DU. Roedd wrth ei fodd â garddwriaeth ac aeth yn arddwr uchel ei barch, swydd anarferol i ddyn Du yn yr 1800au. Priododd John â menyw wyn leol ac mae hyn wedi'i gofnodi fel un o'r priodasau rhynghiliol cyntaf yng Nghymru.

Yn ddiweddar, cafodd rhosyn melyn ei enwi er cof amdano fel symbol o gyfeillgarwch, cariad a chymuned. Dyma'r tro cyntaf i flodyn gael ei enwi gan berson o liw o'r DU, wedi'i ysbrydoli gan y garddwr arloesol hwn.

www.roses.co.uk/john

FIDEO:
Y dyn Du cyntaf
yng Nghymru



SUT GALLWN NI DDATHLU AMRYWIAETH?

Mae pawb yn wahanol, mae gan bawb ei hunaniaeth ei hun!

Mae mudo wedi golygu bod y DU yn anhygoel o amlddiwylliannol. Mae pobl sydd wedi symud yma wedi cyflwyno planhigion newydd, bwyd newydd, crefyddau newydd, mathau newydd o gerddoriaeth, celf newydd a syniadau newydd i'r DU.

Beth yw traddodiadau eich teulu chi?

Beth rydych chi'n ei ddathlu yn eich teulu neu eich ysgol?

Ydych chi'n dathlu rhywbeth gwahanol i rywun yn eich dosbarth?

Bob blwyddyn yn y DU, mae digwyddiadau'n cael eu cynnal i ddathlu amrywiaeth y bobl sy'n byw yma.

Mae'r digwyddiadau hyn yn aml yn fywiog, yn lliwgar, ac yn llawen iawn, i geisio dathlu'r gwahaniaethau sy'n ein gwneud ni yn ni, a dod â chymunedau ac unigolion at ei gilydd.



Carnifal Notting Hill
– Dathliad o ddiwylliant y Caribî.



Pride
– Dathliad o'r gymuned LHDTG+.



Mela
– Dathliad o Ddiwylliant De Asia.

Ydych chi wedi bod i un o'r dathliadau hyn?

CREU EICH PORTREADAU POLINATIONS EICH HUN

Gan ddefnyddio delweddau PoliNations fel ysbrydoliaeth, a lliwiau hyfryd Carnifal y Caribî, Mela, a Pride, bydd y gweithgaredd hwn yn cefnogi eich dosbarth i greu collages yn seiliedig ar yr hunaniaethau hyn i helpu i ddathlu'r pethau sy'n eu gwneud nhw'n wahanol ac yn unigryw!



Beth am gynnwys eich hoff flodyn neu ymchwilio a chynnwys planhigion sy'n dod o wlad rydych chi'n ei hoffi, neu wlad mae gennych chi gysylltiad â hi?

Cyfarwyddiadau

- Tynnwch ffotograff ohonoch chi eich hun a'i argraffu yn y dosbarth â golwg proffil (golwg o'r ochr ar eich pen a'ch ysgwyddau), neu dewch â ffotograff i'r ysgol i'w dorri allan a'i ddefnyddio. Os nad oes ffotograff naamera ar gael i chi, neu os ydych chi'n teimlo'n greadigol iawn, gallech chi luniadu eich wyneb yn lle.
- Ysgrifennwch restr o bopeth sy'n eich gwneud chi'n wahanol ac yn unigryw. Gallwch chi hefyd gynnwys pethau rydych chi'n eu hoffi, neu'n eu gwneud yn dda, yn y rhestr.
- Edrych ar y delweddau PoliNations fel ysbrydoliaeth.
- Gan ddefnyddio eich rhestr fel ysbrydoliaeth, dechreuwch greu eich collage o gwmpas eich llun.



GWERS 3.

EIN HAMGYLCHEDD



EIN HAMGYLCHEDD

FFEIL FFEITHIAU

Mae hanner poblogaeth y byd yn byw mewn ardaloedd trefol, felly mae mwy o angen nag erioed am natur mewn ysgolion, trefi a dinasoedd.

Dyma rai rhesymau pam:

Mae coed, glaswellt a phlanhigion yn atal llifogydd. Mae eu dail yn dal glaw, ac mae eu rhwydweithiau gwreiddiau'n amsugno dŵr ac yn cryfhau'r ddaear, gan atal erydiad pridd.

Mae mannau gwyrdd yn amsugno sŵn, gan wneud ein dinasoedd a'n trefi'n dawelach.

Mae angen blodau gwyllt mewn mannau trefol er mwyn i weny, gloënnod byw a bywyd gwyllt arall allu goroesi; yn wir, mae weny yn goroesi'n well mewn dinasoedd nag yn y wlad oherwydd yn aml mae mwy o flodau yno.

Mae mannau gwyrdd yn dda i ni - maen nhw'n ein gwneud ni'n hapusach ac yn iachach!

DOES NEB YN RHY FACH I WNEUD GWAHANIAETH!

Gall pawb chwarae ei ran i helpu natur mewn amgylcheddau trefol. Gallech chi geisio...

- Peidio â thorri'r glaswellt mewn rhai mannau i helpu bywyd gwyllt.
- Gwneud lle 1m x 1m i blannu blodau gwyllt ar gyfer weny a gloënnod byw.
- Ychwanegu rhywbeth bach fel ymborthwr adar, gwesty weny neu ymborthwr gloënnod byw i ddenu bywyd gwyllt a helpu i atal dirywiad bywyd gwyllt lleol.

YDYCH CHI ERIOED WEDI GWELD HEDYN YN MYND YN FALISTIG?

FFEIL FFEITHIAU

**Mae planhigion yn gwasgaru
hadau mewn ffyrdd anhygoel.**

**Mae gan rai ffyrdd dramatig
o wasgaru eu hadau mewn
ffrwydradau bach sy'n bwrw'r
hadau allan i leoliadau newydd
lle gallan nhw dyfu a lledaenu.**

**Mae hedyn yn cynnwys popeth
sydd ei angen ar blanhigyn i
ddechrau tyfu neu 'egino'.**

Egino - Dyma'r broses lle mae planhigyn yn tyfu o hedyn. Drwy roi hedyn mewn pridd a rhoi dŵr a chynhesrwydd iddo, bydd yr hedyn yn eginu ac yn datblygu'n eginblanhigyn. Ar ôl ychydig mwy o amser a gyda golau a dŵr, mae'r eginblanhigyn yn tyfu'n blanhigyn.

FIDEO:
Hadau balistig



**Yng ngŵyl PoliNations byddwn ni'n
cynnal parti hadau balistig, fydd yn
ffrwydrad o liwiau a diwylliannau!**

GWNEUD BOM HADAU

Mae plannu blodau gwyllt yn gallu helpu i amrywio gerddi a mannau gwyrdd drwy gefnogi peillwyr sy'n ei chael hi'n anodd goroesi mewn amgylcheddau trefol.

Beth am roi cynnig ar wneud bomiau hadau?

 **Os oes angen ysbrydoliaeth arnoch, mae gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol ganllaw ar yr hadau blodau gwyllt gorau ar gyfer peillwyr.**

[RHS Plants for Pollinators.pdf](#)

Cyfarwyddiadau i wneud bom hadau

- 1. Gwahanwch yn grwpiau o tua pedwar i chwech – dylai pob grŵp wneud un gyfran o gymysgedd hadau.**
- 2. Cymysgwch un cwpanaid o hadau â phum cwpanaid o bridd neu gompost heb fawn a dau neu dri chwpanaid o bowdr clai.**
- 3. Cymysgwch ddŵr i mewn nes bod popeth yn glynu at ei gilydd.**
- 4. Rholiwch y cymysgedd yn beli caled maint pêl golff.**
- 5. Rhowch y peli ar bapur newydd neu mewn blychau wyau wedi'u hailgylchu a'u gadael nhw i sychu mewn man cynnes. Pan maen nhw'n sych, maen nhw'n barod!**
- 6. Dewch o hyd i fan gwyrdd lle gallwch chi gael caniatâd i blannu eich hadau.**
- 7. Beth am ofyn os cewch chi blannu ar dir yr ysgol?**
- 8. Plannwch eich 'bom hadau' neu ei daflu ar y llawr.**
- 9. Dros yr wythnosau nesaf, dylai eich hadau dyfu. Cadwch lygad arnyn nhw!**

POLLINATIONS

ADDEWID Y PEILLIWR

Rydw i'n deall y teithiau anhygoel mae llawer o bobl a phlanhigion wedi'u gwneud.

Rydw i'n dathlu gwahaniaethau yn fy ysgol ac yn fy nghymuned.

Rydw i'n mynd i gymryd camau bach i ddiogelu'r amgylchedd.

Rydw i'n mynd i annog pobl eraill i wneud yr un peth.

Ydych chi'n Beilliwyr? Os ydych chi, ysgrifennwch eich enw ar y llinell isod!

Mae peillwyr yn hyrwyddo
amrywiaeth, yn diogelu natur, ac yn
garedig â phobl o bob cefndir

DIOLCH!

DIOLCH ARBENNIG I:

UNBOXED: Creativity in the UK

Tîm Creadigol PoliNations

Everfi

Arts Connect

Royal Botanic Gardens Edinburgh

Charlotte Barnett

- Uwch arweinydd ysgol dros
greadigrwydd ac iechyd meddwl

Johanne Clifton

- Cyfarwyddwr y Cwricwlwm a Rhith
Ddysgu, Sefydliad Elliot

Professor Jane Memmot, OBE Hon

- FRES, ecolegydd ac entomolegydd.
Athro ecoleg ym Mhrifysgol Bryste

Advolly Richmond

- Hanesydd Gerddi, Tirwedd a
Chymdeithasol

Gail Lambourne

- Sefydliad Brigstow

COFIWCH, BYDDEN NI WRTH EIN BODDAU I WELD BETH RYDYCH CHI'N EI GREU!

Rhannwch eich ffotograffau a'r
pethau rydych chi'n eu creu ar
gyfryngau cymdeithasol gan
ddefnyddio'r dolenni:

@Poli_Nations @PoliNations

@Poli_Nations @Poli_Nations

#PoliNations

Gallwch chi hefyd eu hanfon nhw
drwy e-bost aton ni!

Cysylltwch â ni ag adborth am
y pecyn adnoddau hwn hefyd!
takepart@triggerstuff.co.uk

DEUNYDD DARLLEN PELLACH AM Y TESTUNAU YN Y PECYN HWN:

Black and British:
A Short Essential History
- David Olusoga

Coming To England
- Floella Benjamin

No One Is Too Small
To Make A Difference
- Greta Thunberg

Small Island
- Andrea Levy

The Hungry Empire:
How Britain's Quest For
Food Changed The World
- Lizzie Collingham

understandingslavery.com

POLI
NATIONS



UNBOXED
CREATIVITY IN THE UK

Crëwyd PoliNations gan Trigger, a chafodd ei gomisiynu fel rhan o UNBOXED: Creativity in the UK
ac mae hefyd yn cael ei gyflwyno fel rhan o Wyl Birmingham 2022.

Cysylltau â'r cwricwlwm: Cymru, Cam Dilyniant 3

NODIADAU I ATHRAWON

Gwers 1: Bioamrywiaeth

Dyniaethau

Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddynamig

Mae gweithredoedd bodau dynol yn y gorffennol a'r presennol yn gallu effeithio ar y gydberthynas rhwng y byd naturiol a phobl.

Gwers 2: Amrywiaeth

Iechyd a lles

Mae ein hymateb i ddylanwadau cymdeithasol yn ein siapio ni fel pobl

Rydw i wedi datblygu dealltwriaeth bod fy ngwerthoedd, fy agweddau a fy hunaniaeth yn dibynnu ar wahanol grwpiau a dylanwadau.

Dyniaethau

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol

Mae gwerthfawrogi hunaniaeth, treftadaeth a chynefin yn gallu dylanwadu ar ddysgwyr yn emosiynol ac yn ysbrydol, a helpu i adeiladu eu hymdeimlad ohonynt eu hunain ac o berthyn.

Rydw i'n gallu disgrifio sut mae rhai o wahanol nodweddion cymunedau a chymdeithasau wedi newid.

Holi, archwilio ac ymchwilio

Rydw i'n gallu dechrau deall bod hunaniaeth, profiadau, safbwyntiau a chredoau'n dylanwadu ar sut mae pobl yn dehongli pethau.

Gwers 3: Ein Hamgylchedd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bod yn chwilfrydig

Rydw i'n gallu deall sut mae'r pethau rydw i a phobl eraill yn eu gwneud yn effeithio ar yr amgylchedd a phethau byw.

Rydw i'n gallu esbonio sut mae effaith y pethau rydyn ni'n eu gwneud yn cyfrannu at y newidiadau i'r amgylchedd a bioamrywiaeth.

Y byd o'n cwmpas ni

Rydw i'n gallu adnabod y bygythiadau i ddatblygiad ac iechyd organebau ac adnabod rhai amddiffyniadau, ataliadau a thriniaethau naturiol.

Dyniaethau

Dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol

Deall eu cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd mawr cysylltiedig, a phwysigrwydd creu dyfodol teg a chynaliadwy.

Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddynamig

Mae gweithredoedd bodau dynol yn y gorffennol a'r presennol yn gallu effeithio ar y gydberthynas rhwng y byd naturiol a phobl.

Celfyddydau Mynegiannol

Rydw i'n gallu archwilio ac arbrofi'n annibynnol a dangos rheolaeth dechnegol ag amrywiaeth o ddeunyddiau creadigol, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau gan ddangos arloesedd a gwydnwch.

Rydw i'n gyfarwydd ag amryw o dechnegau penodol i ddisgyblaethau sy'n fy ngalluogi i wneud gwaith creadigol.

Rydw i'n gallu dewis a defnyddio'r offer a'r deunyddiau creadigol cywir yn ddiogel gan ystyried pobl eraill i ryw raddau.

POLI NATIONS

POLI
NATIONS



UNBOXED
CREATIVITY IN THE UK

Crëwyd PoliNations gan Trigger, a chafodd ei gomisiynu fel rhan o UNBOXED: Creativity in the UK ac mae hefyd yn cael ei gyflwyno fel rhan o Wyl Birmingham 2022.



HM Government



Northern Ireland
Executive



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Belfast
City Council

EventScotland™



Cymru Greadigol
Creative Wales